# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Rhagfyr 2022 – Cyfrol 8– Rhifyn 3

## Y bore coffi mwya llwyddiannus erioed!








Llongyfarchiadau calonnog i Chris Williams a Laura Martin ar eu llwyddiant yn y bore coffi yn neuadd y pentref yn ddiweddar. Roedd yn amlwg fod y teulu yn cael ei barchu'n fawr, yn ôl nifer y ffrindiau a'r cyd-bentrefwyr a ddaeth i'w cefnogi. Codwyd dros £1400 ar y bore tuag at y Gymdeithas Clefyd Motor Niwron, a chafwyd rhagor o gyfraniadau yn ddiweddarach. Bydd Chris yn rhedeg marathon Llundain i'r Gymdeithas honno, ac os hoffech chi gyfrannu, ewch i www.justgiving.com/fundraising/Chris-Williams211.





*Nadolig llawen i'n holl ddarllenwyr*

# Pytiau newyddion y pentre

**Cydymdeimlwn** yn ddwys ag Ann ac Iestyn Jones Evans a'r teulu. Bu farw mam Ann, Mrs Myfanwy Jones o Ddinbych yn ddiweddar.

Hefyd â theulu Dr Buddug Owen, Cwm, Dyserth. Roedd hi'n anesthetydd o fri a fu'n gweithio yn yr holl ysbytai lleol, gan gynnwys Llangwyfan. Un o'r llyfrau yr ysgrifennodd hi am ei gwaith oedd *Llangwyfan: Sanatorium to hospital*.

**Croeso** i Tomos a Carrie sydd wedi dod i fyw i Maes Clwyd.

Dymuna Ann a Iestyn, Berth, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Myfanwy Jones, Dinbych – mam, nain a hen nain annwyl iawn.

Fydda i ddim yn anfon cardiau Nadolig eleni – felly dyma ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy holl deulu, ffrindiau a chymdogion.
*Wyn Wilson*

Cyfarchion y tymor i'n holl ffrindiau yn y pentref a thu hwnt.
*Bryn ac Anwen, Bryn Ffolt.*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bawb.
*Sue a Pete Vine*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy holl ffrindiau a chymdogion.
*Margaret, Awel y Foel.*

Cyfarchion y Nadolig i'n ffrindiau yn y pentref, a dymuniadau da ar gyfer y Flwyddyn Newydd.
*Elwyn ac Olga, Ger y Llan.*

# Capel y Dyffryn

**Y Gymdeithas** Nos Lun 31 Hydref cynhaliwyd Noson Cwis addysgiadol a diddorol dros ben dan ofal Angharad Rhys, Dinbych.

Nos Lun 14 Tachwedd cafwyd Noson Gyrfa Chwilod swnllyd a hwyliog iawn yng ngofal Rich a Iona, gyda stondin ar gyfer Y Goeden Nadolig.

**Ysbyty** Pob dymuniad da i Olga, ger y Llan yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

**Pen-blwydd** Pob dymuniad da i Alan, Rhydonnen ar gyrraedd carreg filltir arbennig.

**Llongyfarchiadau** i Rhys a Gwen Davies, Gwinllan y Dyffryn ar eu llwyddiant yn y Gwobrau Gwin Cymreig o dan nawdd Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru. Enillodd eu *Vale Solaris* y wobr am y gwin gwyn gorau, a'r *Vale Ronde Rosé* y wobr am y rosé llonydd gorau.



**Llongyfarchiadau** i Gwenan Pen y Bryn ar ei llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llanfyllin.



**Gwasanaethau mis Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| 4ydd | 9.45 | Naws y Nadolig dan ofal Ann a Iestyn |
| 11eg | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 18ed | 10.00 | Gwasanaeth Nadolig y plant |
| 25ain | 9.30 | Gwasanaeth y Fro – Capel y Fron |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth | 13 | Clwb Llyfrau 10am |
| Mawrth | 14 | Undeb y Mamau 2pm |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 3 | Grŵp crefftau 9.30 – 4pm (ystafell isaf) |
| Sadwrn | 3 | Parti pen-blwydd (y neuadd) |
| Sul | 4 | Parti anrhegion i fabi |
| Llun | 5 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Llun | 5 | Côr Nantclwyd, 7.30pm |
| Sul | 11 | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 12 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Llun | 12 | Côr Nantclwyd, 7.30pm |
| Llun | 19 | Brownies, 5.30 – 7pm |
| Llun | 19 | Côr Nantclwyd, 7.30pm |

**Gwasanaethau mis Rhagfyr yn eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| Sul 4 | 11.15 | Cymun bendigaid |
| Sul 11 | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Llan Llanast (Neuadd y Pentre) |
| Sul 18 | 11.15 | Boreol weddi |
| | 17.15 | Gwasanaeth Christingle |
| Sad 24 | 17.00 | Gwasanaeth y preseb |
| Sul 25 | 11.15 | Cymun bendigaid y Nadolig |

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

# Diolch ☺

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gyfrannu arian, cacennau a gwobrau i'n bore coffi ddydd Sadwrn, 19 Tachwedd, gan godi arian i'r Gymdeithas Clefyd Motor Niwron. Mae hon yn elusen hynod o bwysig i'n teulu.

Rydym yn ymwybodol iawn ei bod hi'n anodd ar bawb ar hyn o bryd yn ariannol, felly rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Codwyd dros £1400 – swm anhygoel. Mae'n golygu llawer iawn i ni, felly diolch.

Diolch yn fawr iawn i Diane am ei holl help, i Mrs Steel ar y stondin gacennau, i Anti Winnie a Magi am eu gwaith gwych gyda'r raffl, i Bryn ac Anwen am helpu gosod pob peth a'n rhoi ni ar ben ffordd. Unwaith eto, diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd – rydym yn hynod ddiolchgar.
Chris, Laura, Gemma, Ian a'u teuluoedd x

---



## Nwyddau ar werth ym Mhlas Ashpool

Mae Plas Ashpool yn agor ei ddrysau i groesawu pawb i'w sgubor ar ei newydd wedd.

Dewch i bori neu i brynu. Bydd pob math o eitem ar werth – mawr, bach, ail-law a newydd. Stoc newydd bob wythnos.

**Rhagfyr 4/11/18, 11am–3pm**

**Plas Ashpool, Llandyrnog, LL16 4HP, Dinbych**

Rydyn ni ar y B5429 rhwng Bodfari a Llandyrnog.

Ffoniwch 07813087797 am ragor o fanylion.

***RHAID I NI WERTHU POPETH!***

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan

**50 mlynedd o weinidogaeth ordeiniedig**
Yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan ym mis Hydref, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol ar '50 mlynedd o weinidogaeth ordeiniedig', gan yr Hybarch. E. Bernard Thomas. Mae Bernard newydd orffen ei gyfnod fel cadeirydd y Gymdeithas.


Bu Bernard, a anwyd ym Mhontardawe, Cwm Tawe, yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, yn astudio Cemeg. Yna cafodd radd ôl-raddedig mewn diwinyddiaeth yng Nghaerdydd a chafodd ei ordeinio yn 1971 yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Yn 1999, symudodd i esgobaeth Llanelwy fel Archddiacon a bu hefyd yn Rheithor Llandyrnog a Llangwyfan, gan ymddeol yn 2014.

Prif ddiben unrhyw alwad ordeiniedig yw rhannu'r efengyl, newyddion da y ffydd Gristnogol, i ddod â llawenydd i fywydau pobl. Pwysleisiodd Bernard fod hiwmor, chwerthin a gwenu yn rhan o lawenydd bod yn fyw ac felly mae bob amser wedi ceisio bod yn siriol yn y weinidogaeth ar hyd yr holl flynyddoedd hynny.

Atgoffwyd yr aelodau am streic fawr y glowyr yn y 1980au a sut brofiad oedd bod yng nghymoedd De Cymru bryd hynny. Roedd teuluoedd yn wynebu tlodi mawr ac mae Bernard yn credu bod ymdrechion y gymuned i helpu i fwydo teuluoedd o'r fath yn rhyw fath o ragflaenydd i'n banciau bwyd heddiw.

Roedd yr eglwys y cafodd Bernard ei magu ynddi yn gwbl wrywaidd a pharhaodd felly am sawl degawd wedyn. Soniodd gyda balchder iddo fod yn wrthryfelwr cynnar iawn a'i fod wedi herio'r normau derbyniol hyn. Rhannodd lawer o enghreifftiau o'r adegau y ceisiodd bleidleisio dros newidiadau o blaid menywod.

Trafododd Bernard lawer o bynciau eraill gan gynnwys agwedd yr Eglwys at berthnasoedd personol, gan gynnwys caniatáu i bobl sydd wedi'u hysgaru briodi yn yr eglwys, a'r ddadl am berthnasoedd o'r un rhyw a rhywioldeb. Hefyd yr her o fod yn Archddiacon Llanelwy a gorfod lleihau gweithlu clerigol yn ogystal â gwasanaethu fel Rheithor Llandyrnog a Llangwyfan.



Ar ôl ei ymddeoliad, mater i eraill oedd gweithio ar argymhellion Adroddiad Harris ar yr Eglwys yng Nghymru, newid sylfaenol arall ym mywyd eglwysig y wlad. Mae Ardaloedd Gweinidogaethu neu Genhadu wedi disodli plwyfi – nid yw clerigwyr yn perthyn i eglwys na phlwyf penodol, ond i ardal estynedig ac maen nhw'n cydweithio'n fwy o lawer â'i gilydd.

I ddiweddu, dywedodd fod hanner can mlynedd yn amser hir i fyfyrio arno. Mae cymdeithas a'r Eglwys y mae wedi gwasanaethu ynddi ac yn parhau i wasanaethu ynddi wedi newid yn aruthrol mewn sawl ffordd. 'Rydym ni fel clerigwyr yma o hyd ac mae'r Eglwys yng Nghymru yma o hyd – "Er gwaethaf pawb a phopeth, ry'n ni yma o hyd".'

**Siaradwyr gwadd 2023 fydd:**
Dr Shaun Evans – Ystadau yng Nghymru: eu hanes a'u harwyddocâd
Mr Paul Broadbent – Syr Herbert Lewis o Gaerwys, AS Rhyddfrydol cefnogwr addysg a Chymru Fydd,a oedd yn cydoesi â David Lloyd George,
Mrs Elizabeth Benson – Crefftau dyddiol ein hynafiaid: sesiwn ymarferol ar nyddu, gwehyddu a gwneud basgedi
Mr Berwyn Evans – Gwersyll carcharorion rhyfel Dyffryn Aled

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag ysgrifennydd y gymdeithas drwy e-bost: **llangwyfanhistory@hotmail.com.**

# Tuesday Club

Yn anffodus, roedd y siaradwraig wadd yn methu dod i gyfarfod mis Tachwedd oherwydd salwch, felly cafwyd cyflwyniad gan Anwen, trefnydd y clwb, ar wahanol Gymry dylanwadol ac arloesol ar hyd y canrifoedd.

Roedden nhw'n amrywio o Syr Hugh Myddelton o Ddinbych, a ddaeth â dŵr i Lundain yn yr 17eg ganrif; i John Hughes o Ferthyr Tudful, a sefydlodd y gweithfeydd haearn mwyaf yn yr Ymerodraeth Rwsiaidd ar ddiwedd y 19eg ganrif; i Tom Parry Jones, Ynys Môn, a ddatblygodd yn yr 1980au y teclyn sy'n mesur faint o alcohol sydd yn y gwaed; ac i Josh Wardle (isod) a fagwyd ar fferm ger y Fenni, a ddyfeisiodd Wordle yn ddiweddar, y gêm ar-lein hynod boblogaidd.



Efallai fod Cymru yn genedl fach, ond yn sicr mae wedi gadael ei hôl ar y byd!

Cafwyd lluniaeth ysgafn a chanwyd Pen-blwydd Hapus i Buddug Foulkes.

Edrychwn ymlaen at y cinio Nadolig blynyddol yn y Cherry Pie, Melin y Wern, ddechrau mis Rhagfyr.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco brynhawn dydd Mercher, 18 Ionawr am 2 o'r gloch. Croeso i aelodau newydd!

# Rhodd hael i'r pentref



Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu coeden Nadolig i'w rhoi o flaen yr eglwys. Eto eleni, Glyn a Carol Davies a'r teulu sydd wedi talu amdani – gweithred flynyddol hynod o hael. Diolch hefyd i David Weyman am wirfoddoli i nôl y goeden o Lanfair TH.




# Gair gan yr offeiriad

Oherwydd ofn na fydd pobl yn gallu gwario cymaint ar gyfer y Nadolig eleni, cafodd llawer o'r hysbysebion Nadolig masnachol eu rhyddhau wythnos yn gynt nag arfer. Maen nhw wedi addasu eu themâu hefyd, gan hyrwyddo'r synnwyr o gymuned a rhoi.

Gallwch weld sawl un ar YouTube neu ar y teledu. Yr un sydd wedi cael yr effaith fwyaf arna i eleni yw hysbyseb hollol wych John Lewis, "The Beginner". Rydyn ni'n gwylio'r actor adnabyddus, John Paul Hurley, yn brwydro ar ei ben ei hun i ddysgu sglefrfyrddio, ac yn mynd o fethu'n llwyr â'i wneud, i ddod yn weddol fedrus. Mae'n debyg ei fod yn gwneud hyn er mwyn uniaethu ag aelod newydd o'r teulu, Ellie, sy'n cyrraedd ei chartref newydd dros y Nadolig. Wrth sylwi ar arddwrn ei darpar dad maeth wedi'i anafu, mae Ellie yn teimlo ar amrantiad bod croeso iddi. Wrth iddi ymgartrefu, mae'r ystadegau brawychus ar y sgrin yn rhoi gwybod i ni fod dros 108,000 o blant yn system ofal y Deyrnas Unedig. Mae cwmni John Lewis yn cydweithio mewn partneriaeth ag Action for Children a Who Cares Scotland, gan addo ymrwymiad hirdymor.

Mae fy ngwraig, Vicky, a minnau yn ofalwyr maeth ac mae Vicky wedi gweithio yn y sector yn broffesiynol ers pan oedd yn ifanc. Dechreuodd ei gwaith yng nghymoedd y De. Gyda dau o blant tymor hir yn ein gofal a 15 o blant wedi bod yn ein gofal, pan mae Ellie yn edrych ar ei gofalwr newydd, Mr Sglefrfyrddio, mae dagrau'n dod i fy llygaid bob tro rydw i'n gweld yr hysbyseb. Gyda chymaint o angen o gwmpas, fel y dywed John Lewis, a gyda sefyllfa pobl yn gwaethygu'n ariannol, does bosib nad yw caledi ond yn mynd i wneud eu sefyllfaoedd yn waeth.

Fel dilynwyr Iesu yn y capeli a'r eglwysi o'n cwmpas, mae llyfrau hynafol y Beibl yn ein harwain a chredwn fod Duw yn dal i gyfathrebu â ni ac yn ein siapio trwy'r geiriau hyn. O'r proffwydi niferus mae'r un neges yn dod dro ar ôl tro – galwad y proffwydi ar gymunedau i ofalu am y gweddwon a'r plant amddifad. Os hoffech chi ddarllen rhai o'r rhain, darllenwch Malachi 3:5, Salm 146 adnod 9, Deuteronomium 16:11 a Deuteronomium 10:18 a hyd yn oed 27:19. Mae llawer o gyfeiriadau at hyn – rhannaf hwn â chi o lythyr Iago 1:27, 'Dyma'r grefydd sy'n bur a dilychwin yng ngolwg Duw ein Tad: bod rhywun yn gofalu am yr amddifad a'r gweddwon yn eu cyfyngder, ac yn ei gadw ei hun heb ei ddifwyno gan y byd.'

Po hiraf yr wyf wedi bod yn maethu plant a pho fwyaf y byddaf yn sgwrsio â phobl, y mwyaf y byddaf yn dysgu faint o bobl sydd â chysylltiad mewn cymaint o ffyrdd â realiti maethu a mabwysiadu.

Rwy'n gobeithio bod yr hysbysebion Nadolig yn eich annog i ymarfer ysbryd cymunedol, haelioni a dod adref at deulu ac anwyliaid. Does dim rhaid i ni syllu ar sgriniau a chuddio y tu ôl i ddrysau clo mwyach a byddem wrth ein bodd yn rhannu amser a lle go iawn gyda chi yn ein cymuned go iawn.

Rydyn ni fel teulu estynedig yn y gymuned yma yn eglwys St Tyrnog a byddem wrth ein bodd petaech chi'n ymuno â ni. Bydd ein gwasanaeth preseb i'r teulu am 5 o'r gloch, Noswyl Nadolig – byddai'n wych eich gweld chi yno. Mae manylion eraill am ddigwyddiadau yma ac ar draws Ardal Genhadu Dinbych ar daflenni yn yr eglwys ac yn Swyddfa'r Post. Edrychwch arnyn nhw a dewch i weld unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i chi a'ch teulu neu'ch ffrindiau. Wrth gwrs, bydd croeso mawr i'r rhai sydd ar eu pen eu hunain hefyd.

Y stori fwyaf a adroddwyd erioed yw gwir ystyr tymor y Nadolig sydd wedi tyfu o amgylch gwirionedd Duw, wedi ei eni i lanast ein byd dros 2000 o flynyddoedd yn ôl.

Un o rannau mwyaf y stori hon yw bod Joseff yn rhoi sylw manwl i'r modd y mae Duw yn cysylltu ag ef trwy freuddwyd. Yn lle cefnu ar Mair fel y byddai llawer wedi disgwyl iddo wneud, daw Joseff yn dad maeth i Iesu. Mewn byd sy'n llawn poen a gwrthdaro, mae

# Sul y Cofio



## Gair gan yr offeiriad: parhad

gwirioneddau Cristnogaeth yn darparu map a chwmpawd cadarn i lywio drwy'r holl ansicrwydd.

Gobeithio y cewch chi Adfent gwerthfawr trwy gydol mis Rhagfyr a Nadolig bendigedig, beth bynnag yw eich cynlluniau. Boed i Dduw eich bendithio ym mhob ffordd ym mis Rhagfyr a'r Flwyddyn Newydd.

Gobeithio y cewch chi Nadolig braf ac wrth eich bodd!

**Y Parch Martin Pritchard.**
**Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych**

---

Bu Llandyrnog yn coffáu Sul y Cofio ar 13 Tachwedd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Alison Goldstein, darllenwyd enwau'r rhai a fu farw gan Rob Hammond, a seiniwyd y *Last Post* gan Heather Powell. Gosodwyd torchau ar ran y Cyngor Plwyf, y Llynges Frenhinol, y Cyngor Cymuned, Cyngor Sir Ddinbych, Sefydliad y Merched, y Brownis a theulu'r diweddar Warchodfilwr Peter Edwards.

Daeth Bill a Barbara Hammond o Frychdyn a'i nai, Colin Dew Parry o Gaer, i'r gwasanaeth eto eleni. Hen ewythr Barbara oedd Martin Luther Williams a fu farw yn 1916 yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanegwyd ei arysgrif at y gofeb rhyfel gyda'u caniatâd yn dilyn ymchwil gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi Croeso Cynnes i drigolion y gaeaf hwn. Ar draws y sir mae hybiau cynnes yn cael eu sefydlu – lleoliadau yn y gymuned lle gall pobl ddod o hyd i fan diogel, cynnes a chroesawgar yn ystod y dydd. Mae'r agosaf yn Ninbych – Hwb Dinbych, Ffordd y Ffair, LL16 3RG. Ffôn: 01745 818485, e-bost: helo@ytygwyrdd.cymru. Ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 9am-3pm. Croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/croeso-cynnes.

# Gyrwyr o safon

Roeddwn i am longyfarch Sally Cunliffe a ddaeth y diweddaraf, (a'r aelod cyntaf o grŵp IAM Gogledd Cymru ers y cyfnod clo), i basio prawf gyrru uwch IAM Roadsmart . Roeddwn i hefyd yn meddwl y byddai'n ddiddorol rhannu ein profiadau.

Rwyf wedi bod yn aelod o'r IAM – *Institute of Advanced Motorists* – ers 1980 pan gytunodd fy nhad (a oedd wedi neilltuo rhywfaint o arian ar gyfer gwersi gyrru ar fy mhen-blwydd) y gallwn ddefnyddio'r arian i brynu beic modur yn lle hynny – ond "dim ond os byddi di'n cael dy hyfforddi'n iawn."

Pasiais y prawf beic modur sylfaenol ar Honda CB 200. Gwnes i hefyd gwrs uwch reidio beic modur yn Gatewen yn Wrecsam, gan ddod yn hyfforddwr gwirfoddol yn ddiweddarach. Prawf beic modur yr IAM oedd y cam nesaf. Llwyddais yn hwnnw hefyd, gan ymuno ar y pryd â grŵp bach iawn o feicwyr a oedd yn ferched ac yn aelodau o'r IAM.

Ymlaen â ni i 2014. Ar ôl i mi ymddeol, un o fy mhrosiectau "i'w gwneud pan fyddaf yn ymddeol" cyntaf oedd cymryd prawf yr IAM mewn car i ychwanegu at fy mathodyn am reidio beic modur. Roeddwn yn llwyddiannus, 34 mlynedd ar ôl pasio ar feic modur! Roedd angen aelodau pwyllgor ac arsylwyr ar grŵp Gogledd Cymru felly yn fuan iawn roeddwn yn arsylwi gyrwyr ceir cyn iddyn nhw roi cynnig ar eu prawf IAM. Cafodd yr un cyntaf y bues i yn ei arsylwi y marciau uchaf yn ei brawf . Rhaid imi gyfaddef i mi ystyried rhoi'r gorau iddi bryd gan fod fy nghyfradd llwyddiant yn 100%!

Yna rhoddodd Covid stop ar bopeth, roedd y perygl o ledaenu'r afiechyd ofnadwy wrth gyd-deithio mewn car yn rhy fawr. Ond ar ôl i bob un ohonom gael yr holl bigiadau angenrheidiol, aeth ein grŵp ati eto, a Sally oedd y gyrrwr cyntaf i mi ei harsylwi ar ôl Covid. Roedd ei bwriad i sefyll y prawf mewn fan wersylla yn beth newydd i'r grŵp a byddwn yn cael fy mhryfocio'n rheolaidd gan fy nghyd-arsylwyr ynghylch hwylustod cael toiled yn y cerbyd. Doedd dim angen stopio am baned ac ati…

Gwnaeth Sally yn dda iawn. O'r dechrau'n deg roeddwn i'n gwybod ei bod hi'n yrrwr da. Roedd y seddi uchel yn y cerbyd yn fantais fawr, yn fy marn i. Roeddech chi'n gallu gweld ymlaen yn bellach o lawer ac i mi dyna hanfod gyrrwr da – gweld a chynllunio ymlaen llaw. Ar ôl ambell dro yn y fan (a Sally yn ymarfer yn galed rhwng y rhain), cytunodd un o fy nghyd-weithwyr â mi fod Sally yn barod i roi cynnig ar y prawf.

**Prawf Gyrru Uwch yr IAM**

Ar ôl cael ychydig o sesiynau gyrru wedi fy arsylwi, penderfynais wneud cais ar gyfer fy mhrawf, yn gyrru fy fan wersylla newydd.

Wrth gwrdd â mi ym maes parcio Sainsbury's yn y Fflint, gofynnodd yr arholwr beth byddwn i yn edrych arnyn nhw cyn gyrru, i sicrhau bod y cerbyd yn ddiogel ac yn gyfreithlon i'w yrru. Ar ôl egluro beth byddwn i'n ei wneud, ychwanegodd ychydig o eitemau at y rhestr, a oedd yn ddefnyddiol iawn, a dangosodd bethau amrywiol i mi o dan y boned.

Dangosis nodweddion y *dashboard* i'r arholwr. Ar ôl tynnu sylw at y botwm rheoli cyflymder – y *cruise control* – a dweud fy mod i ddim yn ei ddefnyddio oherwydd roeddwn i'n hoffi rheoli cyflymder y cerbyd, rhoddodd air da o gyngor i mi: mae'r *cruise control* yn defnyddio mwy o danwydd – a dydy o ddim yn ei ddefnyddio chwaith! Rhoddodd awgrymiadau defnyddiol eraill i fi hefyd.

Gan deimlo ychydig yn bryderus, gyrrais drwy faes parcio'r archfarchnad, gyda gyrwyr yn dod i mewn ac allan, tuag at y ffordd agored. Gofynnais a ddylwn i wneud y prawf '*rolling brake*' ond dywedodd nad oedd hynny'n angenrheidiol gan fy mod wedi gyrru yno ac yn amlwg wedi defnyddio'r brêcs. Ond roedd yn falch fy mod wedi meddwl am y peth. Roedd y prawf yn mynd ar hyd ffyrdd trefol a gwledig, ffordd ddeuol, ffyrdd cul gyda cheir wedi'u parcio naill ochr, i fyny ac i lawr

# Gyrwyr o safon: parhad

gelltydd, cylchfannau a sawl math o gyffordd. Roedd hi wedi bod yn bwrw glaw, ac roedd dail ar y ffordd yn gwneud wyneb y ffordd yn llithrig.

Gofynnodd yr archwiliwr sawl cwestiwn imi ar Reolau'r Ffordd Fawr, yn aml yn ymwneud â'r hyn roedden ni yn mynd heibio iddo ar y pryd. Gan 'mod i wedi byw yn yr ardal, roeddwn i'n gyfarwydd â phob ffordd ar y daith, ond efallai nad oedd hynny'n fantais! Ar y ffordd yn ôl i'r dechrau, roeddwn i'n meddwl mae'n rhaid fy mod wedi methu oherwydd nid oedd y prawf yn ymddangos yn ddigon hir. Ar ôl i mi barcio, ysgydwodd fy llaw a dweud fy mod i wedi pasio! Am ryddhad, ac ychydig o syndod.

Esboniodd bob cam o'r prawf, gan ddweud beth oedd yn dda a nodi beth roedd angen ei wella.

Aeth drwy bob rhan o'r adroddiad am y prawf gan egluro'r marciau a roddodd i mi ar bob agwedd arno a dywedodd fy mod yn deilwng iawn o lwyddo.

Byddwn yn argymell yn fawr wneud yr hyfforddiant a sefyll y prawf. Mae wedi cynyddu fy hyder wrth yrru cerbyd llawer mwy na'r un rwyf yn ei yrru fel arfer.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth fy helpu!

*Sally Cunliffe*




Yn Llan Llanast mis Tachwedd buom yn coffáu Sul y Cofio. Dysgon ni pam rydyn ni'n gwisgo pabi a pha mor bwysig yw hi ein bod ni'n cofio'r rhai a fu farw mewn rhyfel, er nad oedden ni byth yn eu hadnabod. Fe wnaethon ni pabïau o bob math ac adeiladu cofeb rhyfel a'i gorchuddio â phabïau wedi'u gwneud o gasys cacennau bach!

Bydd ein sesiwn nesaf ar 11 Rhagfyr pan fyddwn yn edrych ymlaen at glywed stori hyfryd y Nadolig unwaith eto. Mae croeso i bawb; blant, dewch ag oedolyn i rannu'r hwyl.




**Oherwydd cyfnod y gwyliau, ni fydd rhifyn mis Ionawr o'r *Llais* yn dod o'r wasg tan 4 Ionawr.**

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.



# Hanesion Hazel

A dyma ddiwedd 2022 bron â chyrraedd – adeg i fyfyrio a rhagweld beth ddaw yn 2023. Mae hi wedi bod yn flwyddyn o newidiadau, gyda Boris Johnson yn ymddiswyddo, Liz Truss yn ei olynu ac wedyn hithau’n ymddiswyddo, a Rishi Sunak yn dod yn Brif Weinidog. Buom yn dathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines ac yna yn galaru amdani ym mis Medi. Yn yr haf cawsom gyfnodau poeth a dorrodd sawl record. Am flwyddyn!

Dechreuodd mis Ionawr i mi gyda’r tŷ wedi’i orchuddio â sgaffaldau ar gyfer y gwaith atgyweirio ar ôl Storm Arwen, rydw i wedi gadael un swydd ac wedi dechrau un newydd, ac wedi croesawu dwy or-nith i’r teulu.

Mae wedi bod yn her yn yr ardd hefyd. Rydw i heb gael brocoli eto, er bod yr ieir wedi mwynhau tocio’r dail isaf – merched drwg.



Mae gen i blanhigion tomatos yn blodeuo ac yn eu ffrwyth yn y tŷ gwydr o hyd. Mae’r clematis yn dal i fod yn ei flodau, ynghyd â hocysen ddewr. Fodd bynnag, dydy pob peth ddim yn newid, ac mae’r ieir wedi penderfynu o’r diwedd ei bod hi’n bryd cael gorffwys, peidio â dodwy a bwrw eu plu.

Rwyf wedi croesawu ‘ymwelwyr y gaeaf’ i’r ardd – mae Mr Robin a Mrs Mwyalchen yn byw yn yr ardd drwy’r flwyddyn, ond mae rhai adar yr ardd yn teithio tua’r de i ymuno â nhw yn y misoedd oerach. Wedyn mae anghytuno mawr ynglŷn â thiriogaeth pwy sy’n perthyn i bwy. Mae’r siglen fraith ar do’r stabl drwy’r dydd (neu felly mae’n ymddangos), yn siglo ei chynffon i fyny ac i lawr ac yn dal trychfilod ar y llechi. Mae’r dryw bach yn gwibio o gwmpas yr ardd gerrig, yn mynd i mewn ac allan o gilfachau a thyllau yn chwilio am bryfed cop ac anifeiliaid bach di-asgwrn-cefn. Mae hi mor fach ac mae’n rhaid ei bod yn chwilio am bryd o fwyd yn gyson. Wrth y bwrdd adar, mae criw adar y to yn trydar fel petaen nhw’n rhannu’r clecs lleol. Maen nhw’n hel at ei gilydd ar ben y gwrych ar draws y lôn, yn aros i mi roi bwyd ffres allan iddyn nhw. Rwyf hefyd wedi sylwi bod y petris coesgoch wedi dychwelyd, ac yn swatio yng nghysgod y berth i gysgodi rhag ysglyfaethwyr fel y bwncath.

Cefais syrpréis braidd yn annisgwyl o dan fwced ddŵr Bob yn y cae. Mae hon mewn hen deiar car i’w rhwystro rhag troi drosodd. Roedd teulu o lygod maes wedi penderfynu bod y teiar yn lle sych a diogel i adeiladu eu nyth ar gyfer y gaeaf. Fe ddychrynais i gymaint pan godais y bwced a gweld nyth taclus wedi’i wneud o ddail sych, mwsogl, gwlân defaid a blew ceffyl – a gasglwyd, mae’n debyg, yr adeg pan dorrais i flew Bob. Yn ofalus, fe rois i’r bwced yn ei hôl – bydd yn eu cadw’n gynnes ac yn ddiogel ar gyfer y gaeaf.

Eleni, 21 Rhagfyr yw’r diwrnod byrraf – Heuldro’r Gaeaf. Mae’n adeg dathlu gan y bydd y dyddiau’n ymestyn a bydd y gwanwyn yma cyn bo hir. Fel teulu rydyn ni’n gwneud torch ar gyfer y drws ffrynt gyda chelyn, eiddew ac egroes o’r cloddiau, ynghyd ag addurniadau a thinsel Nadoligaidd. Dywedodd fy nhad wrthym ei bod dod â chelyn i mewn i'r tŷ cyn Noswyl Nadolig yn dod ag anlwc, ond roedd y dorch yn iawn. Dywedodd hefyd, pe baem yn dod o hyd i lwyn celyn llawn aeron, byddai’n dod â lwc dda yn y flwyddyn i ddod. Tybed a oedd yn dweud hynny wrthym ni blant er mwyn ein hannog ni i dorri celyn ag aeron arnyn nhw ar gyfer yr addurniadau.

Felly, Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

*Hazel*

# Rysáit

**POLOW CIG EIDION A THOMATO**
(Mae cig oen, porc, cyw iâr neu dwrci hefyd yn addas)
Pryd i 4–6



**Cynhwysion:**
Olew olewydd neu olau llysiau
1 nionyn mawr wedi’i dorri’n fân
500g cig eidion wedi’i friwio
3 llwy fwrdd orlawn o biwrî tomato
2 lwy fwrdd powdr cyri
1 llwy de sinamon mâl – *ground cinammon*
1 llwy de cwmin mâl
½ llwy de naddion tsili – *chilli flakes*
3–4 dail llawryf
4 ewin trwchus o arlleg, wedi’u sleisio’n denau
2 lond dwrn o bys wedi’u rhewi (neu india-corn)
400g reis basmati
25g menyn
700ml dŵr oer
Iogwrt naturiol (neu iogwrt Groegaidd) wrth ei weini
Halen môr a phupur

Rhowch badell ffrio ddwfn neu sosban ar wres canolig, ychwanegwch ychydig o olew, wedyn y nionyn a’i goginio nes y bydd yn feddal. Ychwanegwch y cig eidion a’i dorri mor fân â phosib. Ychwanegwch y piwrî, yr holl sbeisys a dail llawryf cyn ei goginio. Cymysgwch y rhain i orchuddio’r cig yn dda. Ychwanegwch y garlleg, y pys a llawer iawn o halen a phupur. Wedyn ychwanegwch y reis a’r menyn a chymysgwch y cyfan nes bod y menyn wedi toddi ac wedi’i gymysgu’n llwyr i’r cynhwysion eraill. Arllwyswch y dŵr oer i’r badell ffrio neu’r sosban, gorchuddiwch hi a choginiwch ar wres ysgafn am 30 munud neu nes bod y reis yn feddal. Gweinwch gyda’r iogwrt.

*Rhian Jones*

# Nadolig yr Hindŵ

Gan fod Rishi Sunak, ein Prif Weinidog, a’i deulu yn Hindŵiaid, dewch i ni ddysgu ychydig am y grefydd.


**Faint o Hindŵiaid sydd ym Mhrydain?**
Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf mae tua 800,000 yn byw ym Mhrydain heddiw, y rhan fwyaf ohonyn nhw yno â’u gwreiddiau yn Gujarat a Punjab. Mae hyn yn 1.1% o boblogaeth Prydain ond mae 5% o boblogaeth Llundain a 25% o boblogaeth Harrow yn Hindŵiaid.

**Hindŵiaid a'r gyfraith**
Mae Hindŵiaid yn ddinasyddion sy’n parchu’r gyfraith yn fawr iawn. Dim ond 329 sydd yn y carchar ym Mhrydain ar hyn o bryd – dim ond 0.4% o boblogaeth y carchardai yw hynny.

**Oes gan yr Hindŵiaid dduw?**
O'r cannoedd o dduwiau, mae gan Hindŵiaid dri duw sy’n gyson bwysig, y Trimurti: Brahva (y Creawdwr) Vishna (y Ceidwad) a Shiva (y Dinistriwr).

**Beth yw fersiwn yr Hindŵ o’r Nadolig?**
Ym 1985, creodd Satguru Sivaya Subramuniyaswami, sylfaenydd y cylchgrawn *Hinduism Today*, yr ŵyl grefyddol, Pancha Ganapati, a’i chyflwyno. Mae’n rhoi ffordd ystyrlon i deuluoedd Hindŵaidd gymryd rhan yn nhymor gwyliau’r Nadolig heb gyfaddawdu ar eu gwerthoedd Hindŵaidd. Mae Pancha Ganapati yn ŵyl bum diwrnod sy'n anrhydeddu'r Arglwydd Ganesha, arglwydd diwylliant a dechreuadau newydd. Mae'r dathlu yn dechrau ar 21 Rhagfyr.

**A oes gan blant Hindŵaidd Siôn Corn?**
Nag oes, ond maen nhw’n cael anrhegion ar ddiwrnod olaf Pancha Ganapati – 25 Rhagfyr.



# Economeg sychu dillad

Gan fod gaeaf o'n blaenau, dydy hi ddim bob amser yn bosib sychu ein dillad y tu allan ar y lein ddillad, y ffordd rataf. Felly pa ddewisiadau eraill sydd ar gael, a faint yw'r gost? Efallai'n wir y byddwch chi'n synnu at gynnwys yr erthygl yma – rydw i wedi cael y wybodaeth o erthyglau diweddar rydw i wedi'u darllen.

- Sychwyr dillad – *tumble driers* – £1.52 ar gyfartaledd i sychu un llwyth.
- Sychwyr aer wedi'u gwresogi – *heated air dryers* – mae'r rhain yn boblogaidd iawn yn ddiweddar. Maen nhw'n edrych fel pebyll bach, a thua 34c yr awr yw'r gost o'u rhedeg. Yn eithaf effeithlon oherwydd eu bod wedi'u cau.
- Rheilen dyweli drydan – 10c yr awr. Mae hon yn iawn, ond mae llawer o wres yn mynd i'r ystafell ac nid i sychu'r dillad. Ond maen nhw'n rhad i'w rhedeg.
- Rheiddiaduron llawn olew – *oil-filled radiators* – £2.40 yr awr i'w rhedeg – ffordd hynod ddrud o sychu dillad.
- Dadleithyddion – *dehumidifiers* – proses braidd yn anghonfensiynol ac araf. Ond mae hyn yn sicrhau bod unrhyw leithder yn mynd i'r dadleithydd ac nid ar y waliau. Gellir eu prynu am ryw £50 a 20c yr awr yw'r gost o'u rhedeg – dull amgen iawn.
- Rheiddiaduron – *radiators* – mae'n benwythnos ac mae angen golchi tunnell o ddillad a dim llawer o le i'w hongian. Mae'r tywydd oer yn golygu na allwch ei sychu ar y lein. Felly eu rhoi nhw ar y rheiddiaduron yw'r opsiwn hawsaf?

  Heblaw bod eich boeler yn gorfod gweithio'n galetach i sychu'r dillad a'r ystafell ddim yn cynhesu, mae digon o wyddonwyr bellach wedi rhybuddio y gallai hyn achosi llwydni i ffynnu. Mewn achosion eithafol, gallai hyn arwain at gyflwr ffwngaidd a allai effeithio ar ein hysgyfaint. Ond rydyn ni i gyd yn ei wneud, on'd ydyn ni? Os oes gennych chi ddigon o aer yn llifo'n rhwydd trwy'r tŷ, sef ffenestri neu ddrysau sy'n gollwng, peidiwch â phoeni am y pryderon gwyddonol!
- Golchdy – *launderette*. Ydyn, rydyn ni i gyd wedi'i wneud – rhoi pentwr o ddillad mewn bag mawr, mynd i Ddinbych, ei ollwng, mynd am goffi – wel, os ydych chi'n mynd i fod yn ddiog, waeth i rywun arall ofalu am eich llwyth golchi. Mae'n debyg mai hon yw'r ffordd ddrutaf, ond mae mwy i fywyd na sychu eich dillad, on'd oes! Does gen i ddim syniad o'r gost, ond os ydych yn gwneud hyn weithiau pan fo angen, peidiwch â phoeni amdano.

Beth rydyn ni yn ei wneud yma ym Mryn Ffolt? *Pulley maid* a lein ddillad sy'n cael ei thynnu dros y Rayburn a'r rhaff dros fachyn. Iawn nes i'r rhaff dorri – ond nid dyna ddiwedd y byd, ynte? Oni bai eich bod yn digwydd bod yn sefyll oddi tani os wrth gwrs.



Pob hwyl ar y sychu!

*Bryn Davies*

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Ydych chi wedi gweld draenog?

Mae draenogod yn rhywogaeth gynyddol brin, a dydyn ni ddim yn eu gweld yn aml. Yma yn Llandyrnog mae pedwar wedi cael eu gweld yn ddiweddar rhwng Glanrafon a Pharc Tyn Llan – oni bai mai'r un un sydd wedi'i weld! Maen nhw'n gallu teithio hyd at filltir.

Gadewch fwlch yn eich ffens fel eu bod nhw'n gallu mynd allan o'ch gardd i chwilio am fwyd. Mae bwyd cathod yn eu temtio.

Mae canolfan ym Mhlas Newydd, Llangollen ar gyfer draenogod sydd wedi'u hanafu neu'n sâl.

Rhowch wybod i ni os ydych wedi gweld draenog yn eich gardd neu gerllaw eich cartref. Efallai bod mwy na phedwar o gwmpas y pentref.



## SERENÂD Y NADOLIG
## CHRISTMAS SERENADE

RHAGFYR Y 9ed/ DECEMBER THE 9th
CAPEL PENDREF RHUTHUN AM 7-30





**Tesni Jones**
**Lisa Dafydd** **a** **Chôr Cytgan Clwyd**
**Dafydd Jones**
**Dafydd Allen**

**Tocynnau yn £15 i oedolion a £7 i blant. Ar gael o Siop Elfair a Siop Clwyd. Bydd holl elw'r noson yn mynd tuag at Ymchwil Cancr. Dewch i gefnogi dwy gantores leol – Anna Jên ac Alys Haf.**


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
**01745 815141**
**07808970364**
E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Ysgol Bryn Clwyd

**Coffadwriaeth**
Tawodd yr ysgol am ddwy funud ar Ddydd y Cofio, cymerwyd casgliad a gosodwyd torch wrth y plac coffa ar gyfer ein milwr lleol, Peter Edwards. Bu’r plant yn sôn am eu harwyr ac yn pobi cacennau a’u gwerthu i godi arian at Apêl y Pabi. Ysbrydolodd y testun hwn ddysgu annibynnol hefyd wrth i blant ymchwilio i ddulliau gwahanol o greu pabi 2D.



**Cyfnod Allweddol 2 – y dosbarth iau**
Mae’r môr wedi parhau i greu cyfleoedd dysgu gyda pheth gwaith celf arbennig o hardd. Mae’r plant wedi bod yn tynnu lluniau o gregyn gan ddefnyddio pastelau, wedi dysgu sut i wneud printiau wedi’u torri a llusernau pysgod.




**Cyfnod Sylfaen – dosbarth y babanod**
Ysbrydolwyd y gwaith yn nosbarth y babanod gan babi Dydd y Cofio. Mae’r plant wedi bod yn ymarfer eu sgiliau echddygol manwl yn gwneud pabi Play-Doh, yn canu’r rhigwm ‘5 coch pabi mewn cae’ ac yn ymarfer cyfri i 5.






**Y Nadolig**
Mae paratoadau’r ysgol ar gyfer y Nadolig ar eu hanterth. Bydd y Gwasanaeth Nadolig ar y llwyfan awyr agored ar ddechrau’r Farchnad Nadolig ar 15 Rhagfyr am 5.30pm ac mae croeso i’r gymuned gyfan.

Unwaith eto bydd cinio Nadolig cymunedol ddydd Iau, 8 Rhagfyr sydd ar agor i’r gymuned ond dylech chi archebu eich lle drwy swyddfa’r ysgol erbyn diwedd Tachwedd. Mae’n £5 am ginio dau gwrs gyda diod boeth a mins pei.

**Staff newydd**
Bydd Miss Birkett yr athrawes babanod i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth yn fuan ac mae’r ysgol wedi penodi Miss Hannah Sharpe i gymryd ei dosbarth yn ystod ei habsenoldeb.

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorwyr Cymuned

**Jane Borthwick**

Cefais fy ngeni ym Mancot a phan oeddwn yn fabi, roeddwn i'n byw yn y Fferi Isaf. Aeth fy nheulu wedyn i fyw i Bantymwyn, yna Rhydymwyn ac wedyn Helygain.

Es i Ysgol y Ddôl, Rhydymwyn ac Ysgol Maes Garmon a gadewais yr ysgol gyda Lefel A yn y Gymraeg, Saesneg a chelf.

Hyfforddais yng Nghaer i fod yn athrawes ysgol gynradd a gweithiais yn Nyserth, Caerwys a Threlawnyd cyn dod yn bennaeth Trelawnyd am 16 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn cefais ddau secondiad i arwain ysgolion Nercwys a Chaerwys.



Ar ôl hynny, bûm yn gweithio i'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, yn arwain ysgolion cynradd yn Wrecsam. Erbyn hyn rwy'n uwch gynghorydd ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir y Fflint. Rwyf hefyd yn ymuno â thimau ledled Cymru ar gyfer arolygon ysgolion.

Ers cael fy nheulu o ddau o blant a thri o wyrion erbyn hyn, mae fy mhartner, Geraint Bellingham, a minnau wedi byw yn Nhreffynnon a Nannerch cyn symud i Landyrnog ddwy flynedd yn ôl i fyngalo Millbrook – rydym wrth ein boddau yno.

Daethom i adnabod y pentref drwy feicio a cherddded yn y dyffryn a chael seibiant yn y tafarndai lleol! Geraint oedd rheolwr tîm Ysgeifiog yng nghynghrair pêl-droed yr haf, felly roedden ni'n adnabod eitha tipyn o bobl o'r pentre ers y cyfnod hwnnw. Rwyf wrth fy modd â naws Gymreig y pentre a'r agosrwydd at Ruthun, Dinbych a'r bryniau.

Rydw i yn aelod o Sefydliad y Merched erbyn hyn ac yn brysur iawn gyda theulu a gwaith. Rydym yn mwynhau teithio i'r bryniau, i'r mynyddoedd ac i'r arfordir, yma ac yn Ewrop. Oherwydd hyn roeddwn i'n meddwl y byddai bod yn gynghorydd cymuned yn defnyddio fy sgiliau yn dda ac yn helpu'r gymuned. Rwy'n mwynhau garddio pan fyddaf yma ac fe welwch ni ar ein beiciau neu'n cerdded, felly dewch i ddweud helô.

**Elaine Williams**

Cefais fy ngeni a fy magu yn Ne Ddwyrain Lloegr, a des i i Ogledd Cymru fel myfyriwr yn y 1970au i astudio yn y Coleg Normal ym Mangor. Ar ôl gadael y coleg, symudais i Ddinbych ac yn ddiweddarach i Langwyfan lle rwyf bellach wedi byw am y 36 mlynedd diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o fy mywyd gwaith yn y sector Gofal Cymdeithasol fel Gweithiwr Gofal Canolfan Ddydd yn Ninbych – yn Eirianfa i ddechrau ac wedyn yn Nolwen. Roeddwn wrth fy modd yn swydd, yn cyfarfod â chymaint o bobl ddiddorol ac yn eu helpu gyda gwahanol bethau. Fe wnes i ymddeol o'r gwaith yn gynharach eleni.



Ymunais â'r Cyngor Cymuned yn 2017. Roedd ganddo le gwag ac roeddwn yn teimlo y byddai'n gyfle i gyfrannu at yr ardal. Mae'n grŵp hynod gyfeillgar; mae'r cyfarfodydd yn groesawgar iawn a braf oedd gweld rhai aelodau lleol o'r cyhoedd yn ymuno â'n cyfarfodydd i'w harsylwi yn ddiweddar. Rwyf hefyd yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar grŵp cyswllt cymunedol Parc Highfield.

Rwy'n credu'n gryf mewn dysgu gydol oes ac yn dysgu Cymraeg, ac rwyf wedi ymuno â llawer o ddosbarthiadau nos mewn pob math o bynciau dros y blynyddoedd.

Mae fy niddordeb mwyaf yn yr amgylchedd. Rydym yn byw mewn man arbennig iawn a dwi wrth fy modd yn mynd allan am dro yn lleol yn edrych yr holl fywyd gwyllt a'r natur sydd o'n cwmpas.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd Cyngor Cymuned Llandyrnog

Dyma'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor Cymuned – bydd y cofnodion yn llawn ar y wefan maes o law.

- Penderfynwyd cyfrannu £100 at y Tuesday Club tuag at gost eu cinio Nadolig.
- Roedd plismon cymunedol yr ardal wedi ymweld â'r pentre yn dilyn cwyn am barcio anystyriol ar Oliver's Row. Mae'n cadw golwg ar y sefyllfa.
- Er bod lamp stryd wedi ei gosod ym maes parcio Maes Llan, hyd yma nid yw wedi ei chysylltu â'r prif gyflenwad trydan.
- Mae cyflwr y ffordd i faes parcio Maes Llan yn destun pryder ac mae cais wedi ei wneud i CSDd i roi sylw i'r mater.
- Mae CSDd wedi llenwi'r tyllau yn y ffordd ger Efail Groes Efa.
- Mae ychydig o bryder ynglŷn â'r cais i ymestyn y swyddfeydd yn yr Hufenfa. Fodd bynnag, penderfynwyd cefnogi'r cais ar yr amod bod y cwmni yn cadarnhau'r trefniadau parcio.
- Y Cyngor ofyn i swyddogion yr Eglwys ganiatáu codi coeden Nadolig y tu allan iddi. Mae'r goeden wedi ei harchebu – mae angen ei nôl, ei chodi a'i haddurno.
- Hyfforddiant digidol – gan fod gennym Wi-Fi llawn yn yr Ystafelloedd Coco nawr, bydd taflenni yn cael eu dosbarthu i gartrefi yn y pentref i weld a oes diddordeb mewn hyfforddiant technoleg gwybodaeth sylfaenol. Mae tiwtor wedi cynnig ei gwasanaeth hyfforddi yn rhad ac am ddim.
- Er bod Swyddfa'r Post wedi cyhoeddi y byddai'n cau am bythefnos ym mis Medi, roedd pryder bod gwasanaeth dros dro heb ei gynnig, ac y byddai hyn yn effeithio ar nifer y cwsmeriaid ac yn achosi problemau o ran dyfydol y swyddfa. Y Clerc i gysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid Swyddfa'r Post i holi am eu polisi ynghylch cyflenwi yn ystod gwyliau staff.
- Mae'r gwter ar waelod ardal Lôn Goch/ Cerrigllwydion wedi'i flocio eto gan arwain at lifogydd sydyn.
- Mae angen creu rhaglen i'r arolwg o anghenion cymunedol.

Os oes gennych unrhyw fater i'w godi â'r heddlu, anfonwch e-bost at y plismon cymunedol: david.jones4@nhtwales.pnn.police.co.uk , neu ffoniwch 101 a gadewch neges iddo.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*


BLUE HAND MOWERS

**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462